

Astudiaeth Achos: Trosglwyddo Asedau

Llyfrgell Grappenhall, Warrington

Beth yw Llyfrgell Grappenhall? Wrth ymdrechu i ganfod arbedion yn ei gyllideb, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Warrington adolygiad o'i ddarpariaeth llyfrgelloedd yn 2010. Ymysg pethau eraill, enwodd adolygiad 2010 ddwy lyfrgell y gellid eu cau: Great Sankey a Grappenhall. Dewiswyd y llyfrgelloedd hyn yn seiliedig ar ddefnydd, pa mor agos roeddynt i lyfrgell arall ac effaith gymdeithasol debygol eu cau.

Unwaith y dewiswyd y llyfrgelloedd hyn, gofynnwyd am ddatganiadau o ddi-ddordeb gan fudiadau a hoffai gymryd adeiladau'r llyfrgelloedd drosodd. Yn achos Grappenhall (llyfrgell fechan ag un brif ystafell, ystafell staff fechan a thoiled bach), doedd dim grŵp yn bodoli eisoes i gymryd yr adeilad drosodd. Dros sawl cyfarfod cyhoeddus, daeth grŵp o naw o bobl o'r un anian (gan gynnwys cyfreithiwr, llyfrgellydd, cyn-gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, cyn-feddyg teulu, a swyddog llywodraeth leol â dealltwriaeth o faterion iechyd a diogelwch) at ei gilydd a ffurfiwyd grŵp llywio i gymryd cyfrifoldeb dros redeg Llyfrgell Grappenhall. Yn ogystal, cynigiodd cyfrifydd ei wasanaethau i helpu i sefydlu a chynnal cofnodion ariannol y llyfrgell fel y byddai'n cydymffurfio â gofynion Tŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau; a rhoddodd y cyngor plwyf fynediad at amser clerc y plwyf, er mwyn helpu i ganfod cyllid ar gyfer y fenter. Arweiniodd hyn at greu Cyfeillion Llyfrgell Grappenhall yn 2011.

Beth a wnaethant? O fis Mehefin 2011, cynhaliodd y grŵp gyfarfodydd bob mis â swyddogion y cyngor er mwyn penderfynu ffordd o drosglwyddo'r llyfrgell a'i hasedau. Roedd cymorth y cyngor yn cynnwys darparu polisïau enghreifftiol ar gyfer pethau megis diogelu data ac iechyd a diogelwch; yn ogystal â chymorth i drosglwyddo'r adeilad, yn seiliedig ar waith blaenorol yn cynorthwyo i drosglwyddo clybiau ieuentid i fudiadau cymunedol.

Nod Cyfeillion Llyfrgell Grappenhall yw 'hybu addysg a darparu cyfleusterau er budd cymdeithasol i roi lle i dreulio amser hamdden gan anelu at wella amodau bywyd trigolion.' Trosglwyddwyd adeilad y llyfrgell yn ffurfiol fis Rhagfyr 2011 (drwy drwydded wrth aros i'r les gael ei chwblhau) a lansiwyd y llyfrgell ddechrau mis Chwefror 2012.

Gweithredir a chefnogir y llyfrgell gan y gymuned. Erbyn mis Awst 2012, roedd gan y llyfrgell tua 50 o wirfoddolwyr gweithredol (gan gynnwys pedwar aelod bwrdd, 12 yn y tîm llyfrgell a oruchwylir gan lyfrgellydd a 15 o wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo gweithgareddau cymunedol, ee paratoi bwyd a diod ar gyfer sesiynau galw heibio i bobl hŷn). Pan fo angen, mae gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant a chymorth gan lyfrgellydd proffesiynol sydd â phrofiad o sefydlu gwasanaethau llyfrgell newydd. Yn ogystal, mae tri pherson ifanc ar leoliadau cymunedol Dug Caeredin wedi gweithio gyda'r llyfrgell.

Hyd yn hyn, mae llawer o lyfrau wedi'u rhoi i'r llyfrgell; ac erbyn mis Awst 2012, roedd ganddi bron i 5,500 o lyfrau mewn stoc. Mae'r llyfrgell yn gwerthu stoc dros ben (ail gopiau) yn y llyfrgell ac mewn digwyddiadau lleol, er mwyn codi arian. Mae'r llyfrgell wedi derbyn nifer o roddion a grantiau i helpu i'w chynnal a thalodd Cyngor Bwrdeistref Warrington am 50% o'r costau yn ei blwyddyn gyntaf ar waith a 25% yn ei hail flwyddyn.

Beth yw'r effaith? Pan oedd y llyfrgell yn rhan o Wasanaethau Llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Warrington, roedd gan y gangen tua 1,200 o aelodau gweithredol. Yn ei chyfnod byr ar waith, mae'r llyfrgell wedi denu 1,000 o fenthycwyr (mae mwy nag un o bob tri o'r rhain o dan 16 mlwydd oed); fis Hydref 2013, rhoddodd y llyfrgell ei 10,000^{fed} llyfr ar fenthyg (roedd tua hanner ohonynt i bobl ifanc o dan 16 mlwydd oed). Mae gan y llyfrgell tua 135 o Gyfeillion, sy'n talu £10 yr un y flwyddyn.

